

anthem.

BRIFF TENDR PORTH ANTHEM

Cefndir

Sefydlwyd Anthem. Cronfa Gerdd Cymru yn 2018 yn dilyn adroddiad Llywodraeth Cymru a oedd yn archwilio ffyrdd i gynorthwyo addysg cerddoriaeth yng Nghymru. Crewyd yr elusen er budd pobl ifanc 3–25 oed yng Nghymru.

Ein gweledigaeth yw Cymru lle gall cerddoriaeth rymuso pob bywyd ifanc.

Credwn fod cerddoriaeth yn rym creadigol cryf i bobl ifanc sy'n hybu hunanfynegiant, datblygiad personol a lles. Bydd Anthem yn creu cyfleoedd ar draws genres a chymunedau ac yn meithrin talent amrywiol i gymryd y camau nesaf tuag at yrfaeodd cerddorol.

Mae Anthem yn sbardun ar gyfer cerddoriaeth ieuenctid yng Nghymru, yn ariannu gwaith a fydd yn creu newid, yn gwneud cysylltiadau i ehangu gwaith partneriaeth, ac yn galluogi arferion gorau i ffynnu. Mae Anthem yn llywio ei gwaith i fod yn gydweithredol, arloesol, cynhwysol a chreadigol, ac i ysbrydoli.

PORTH ANTHEM

Platfform digidol yw Porth Anthem a fydd yn 'bont' rhwng ieuenctid cerddoriaeth Cymru a gwybodaeth a chyfleoedd yn ymwneud â'r diwydiant cerddoriaeth. Bydd Porth Anthem yn wefan a fydd yn darparu cynnwys gwreiddiol ac wedi'i guradu fel blogiau, gwybodaeth am y diwydiant cerddoriaeth a'r llwybrau gyrfa sydd ar gael, ac yn hysbysfwrdd ar gyfer rhaglenni creadigol a chyfleoedd ariannu cyfredol gyda sefydliadau eraill yng nghymuned gerddoriaeth Cymru.

Bydd Porth Anthem hefyd yn darparu rhwydwaith i ddefnyddwyr y wefan gysylltu â sefydliadau cerddoriaeth eraill ac ymysg defnyddwyr eraill drwy blatfformau trydydd

parti fel Discord i ryngweithio ar-lein, Zoom i gynnal gweminarau ac Eventbrite i drefnu digwyddiadau wyneb yn wyneb.

I grynhoi, bydd Porth Anthem yn ceisio cyflawni'r canlynol:

- Adeiladu porth digidol sy'n creu cyfleoedd i holl aelodau'r diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru gyfnewid gwybodaeth a rhwydweithio.
- Darparu platfform digidol dwyieithog sy'n galluogi hygyrchedd i'r holl ddefnyddwyr.
- Darparu platfform digidol sy'n hawdd ei ddefnyddio ac sy'n ddiddorol i'r defnyddiwr.

Briff Cyffredinol y Prosiect

Mae Anthem nawr yn edrych am ddatblygwr y we a dylunydd i greu fersiwn beta o Borth Anthem.

Er mwyn creu'r deunyddiau, rydym yn edrych am y rolau canlynol y gellid eu cyflawni gan weithwyr creadigol llawrydd ar wahân neu gan un cwmni:

- Datblygwr y we – creu ac adeiladu platfform ar y we ar gyfer Porth Anthem sy'n hygyrch yn Gymraeg neu'n Saesneg
- Dylunydd graffeg – i gydweithio â thîm Anthem i greu golwg ac arddull Porth Anthem

BRIFF TECHNEGOL A DYLUNIO

Lawrlwythwch y briff technegol i gael mwy o wybodaeth am yr hyn rydym yn edrych amdano.

[MANYLEBAU TECHNEGOL](#)

Pwy ddylai ymgeisio:

Rydym yn edrych am geisiadau gan weithwyr llawrydd a chwmnïau a all ddangos y profiad canlynol:

Datblygwyr y We:

Rydym yn edrych am ddylunydd/asiantaeth sydd â phrofiad sylweddol o adeiladu gwefannau 'gweledol yn gyntaf' sy'n slic, syml a hynod effeithiol ac sydd â'r gallu i integreiddio galluoedd baner, sgrolio drwyddo a graffeg/fideo.

Dylunwyr:

- Profiad o gyflawni asedau o ansawdd uchel i ymgyrchoedd print a digidol ar ran cleientiaid.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o ymgyrchoedd brand a phwysigrwydd cyfathrebu brand wrth greu a datblygu ased.
- Y gallu i gymryd briff a defnyddio dawn greadigol ynghyd â'ch profiad mewn gwahanol sefydliadau i ddatblygu hunaniaeth weledol gyflawn o'r cychwyn.
- Mae profiad o ddylunio graffeg symudol yn ddymunol ond nid yn hanfodol.
- Mae sgiliau ysgrifennu copi yn ddymunol ond nid yn hanfodol.

FFIOEDD

Gall Anthem gynnig cyfradd o £250 y dydd ac mae'n disgwyl i'r gwaith o adeiladu'r wefan gymryd hyd at 8 diwrnod a'r gwaith dylunio graffeg gymryd hyd at 5 diwrnod.

AMSERLEN FERSIWN BETA PORTH ANTHEM

Gorffennaf 2022	Galwad am dendrau gan weithwyr llawrydd a chwmnïau.
Awst 2022	Penodi datblygwr y we a dylunydd.
Medi 2022	Datblygu Fersiwn Beta o Borth Anthem yn barod i'w profi.
Hydref 2022	Dechrau profi Fersiwn Beta o Borth Anthem a bwrw ymlaen ag asesiadau risg, gwelliannau, ac adborth gan grŵp sampl.

Y BROSES YMGEISIO

Os hoffech gyflwyno cais am unrhyw un o'r rolau uchod neu'r cyfan, anfonwch CV neu broffil sefydliadol ynghyd â dolen i bortffolio o waith a allai gynnwys dolenni i Github neu MVPs i un o'u prosiectau i Aisha Kigwalilo: aisha@anthem.wales

- Dyddiad cau cyflwyno mynegiad o ddiddordeb i gyflwyno cais yw **dydd Gwener 12fed Awst**.
- Caiff ymgeiswyr y rhestr fer eu gwahodd i gyflwyno cais i Dîm Anthem ar **ddydd Iau 18fed Awst**.